

Arweinydd Shifftiau Arlwy – Gwasanaethau Masnachol

Cyflog: £16,146 - £16,766 y.f. ar Raddfa 2 yn seiliedig ar 36.25 awr yr wythnos

Hyd y Contract: Parhaol (i ddechrau cyn gynted ag y bo modd)

Rydym ar hyn o bryd yn chwilio am arweinydd shifftiau arlwy llawn amser, profiadol a brwdfrydig, i ymuno â thîm arlwy Prifysgol Bangor sy'n ehangu. Mae 2 swydd ar gael.

Rhaid i ymgeiswyr:

- Sicrhau y cyflawnir y safonau uchaf o wasanaeth. Hyrwyddo amgylchedd gwaith sy'n canolbwyntio'n wirioneddol ar y cwsmer.
- Cynorthwyo'r rheolwr i hyfforddi'r holl staff a sicrhau eu bod yn deall y diwylliant gwasanaeth yn y manau arlwy.
- Cynorthwyo Rheolwr Bwyd a Diod i sicrhau bod digon o staff ym mhob busnes bob amser, yn unol â'r rotas sydd wedi eu cynllunio a'r rhagolwg ariannol / y gyllideb.
- Monitro pob cynnyrch a sicrhau eu bod yn ateb y gofynion ac yn gyson o ran eu safon.
- Cynorthwyo'r rheolwyr gyda dyletswyddau gweithredol, yn cynnwys cyfrif stoc, rotas staff, cyflogau, cofnodi data ar agresso ayyb.
- Agwedd hyblyg; bydd yn ofynnol i chi weithio sifftiau yn cynnwys gwaith gyda'r hwyr ac ar benwythnosau
- Mae gallu cyfathrebu yn Gymraeg yn ddymunol i'r swydd hon.

Afonwch eich CV at: a.church@bangor.ac.uk - Mrs Angela Church, Pennaeth Arlwy.

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: hanner dydd, 6 Tachwedd 2018.

Wedi Ymrwymo i Gyfle Cyfartal

DISGRIFIAD SWYDD

Teitl y swydd: Arweinydd Shifft Arlwyo

Adran: Arlwyo, Gwasanaethau Masnachol

Lleoliad: yn amrywio yn ôl rhestr waith y rheolwr llinell

Graddfa: 2

Yn atebol i'r canlynol: Rheolwr Bwyd a Diod

Yn gyfrifol am y canlynol: Arwain y shifft arlwyo i sicrhau'r arferion gorau, a sicrhau perfformiad cyson wrth ddarparu safon ragorol o wasanaeth bwyd a diod o ddydd i ddydd

Dyletswyddau

- Arwain shifft o ddydd i ddydd er mwyn sicrhau bod yr holl dasgau gofynnol yn cael eu cwblhau.
- Sicrhau y cydymffurfir a'r holl brosesau a threfniadau busnes penodedig a'u gweithredu.
- Sicrhau bod unrhyw hyfforddiant a datblygiad mewn swydd a nodwyd yn cael ei gyflawni.
- Arwain trwy esiampl a sicrhau bod y shifft wedi'i ysgogi i ddarparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y cwsmer ac yn seiliedig ar werthu.
- Sicrhau bod cyfrif am yr holl arian, bod unrhyw archebion sydd wedi'u newid wedi'u cwblhau, a bod yr holl arian yn cael ei fancio.
- Cynorthwyo'r Rheolwr Bwyd a Diod i fonitro a chynnal y stoc o fwyd a gwirod yn effeithiol a sicrhau bod yr holl stoc yn cael ei gadw'n ddiogel.
- Sicrhau bod y stoc yn cylchdroi a bod cyfrif am yr holl wastraff.
- Mynd ati'n unswydd i geisio cyfleoedd newydd ac arloesol i wella profiad y cwsmeriaid.
- Sicrhau y cyflawnir y safonau uchaf o wasanaeth. Hyrwyddo amgylchedd gwaith sy'n canolbwyntio'n wirioneddol ar y cwsmer.
- Cynorthwyo'r Rheolwr Bwyd a Diod i sicrhau bod yr holl staff yn cael eu hyfforddi wrth ddarparu gwasanaethau a deall diwylliant y gwasanaeth o fewn y manau gwerthu. Nodi'r holl hyfforddiant a roddir i staff ar eu cofnodion hyfforddi.
- Monitro pob cynnyrch a sicrhau eu bod yn ateb y gofynion ac yn gyson o ran eu safon.
- Sicrhau fod yr holl staff wedi'u hyfforddi ar y cynhyrchion a bod cofnodion hyfforddiant yn cael eu cadw.
- Codi unrhyw faterion o fethu â chydymffurfio â safonau gwasanaeth gyda'r Rheolwr Bwyd a Diod.
- Bod yn gyfrifol fel bo'r angen am baratoi bwyd.

- Cynorthwyo'r Rheolwr Bwyd a Diod i sicrhau y cedwir at weithdrefnau a phrosesau busnes safonol bob amser.
- Cynnal amgylchedd glân a diogel i gwsmeriaid trwy lynu wrth gyfreithiau trwyddedu.
- Cynorthwyo'r Rheolwr Bwyd a Diod i sicrhau bod yr holl staff yn yr holl fannau gwerthu yn deall ac yn defnyddio dulliau effeithiol i gwsmeriaid roi sylwadau.
- Sicrhau bod gweithdrefnau lleol a statudol yn cael eu gweithredu a bod staff yn glynu wrthynt.
- Cynorthwyo'r Rheolwr Bwyd a Diod i sicrhau bod yr holl staff yn cael hyfforddiant ynglŷn â'r holl weithdrefnau statudol, ac y cedwir cofnodion o'r holl hyfforddiant.
- Rhoi'r holl wybodaeth angenrheidiol i'r staff.
- Cynnal archwiliadau dyddiol ar adeiladau a chyfarpar, er mwyn sicrhau bod popeth mewn cyflwr da.
- Adrodd unrhyw faterion pwysig i'r Pennaeth Arlwy.
- Sicrhau y dilynir y Codau Ymarfer penodedig ar Gynadleddau.
- Cynorthwyo'r Rheolwr Gwasanaethau Arlwy i sicrhau yr ymdrinnir â holl fusnes cynadleddau bob amser.
- Defnyddio meddalwedd Kinetics i gyrchu gwybodaeth ynglŷn â chynadleddau, a'i defnyddio i baratoi gwybodaeth berthnasol i'r staff.
- Cynorthwyo'r Rheolwr Gwasanaethau Arlwy i drosglwyddo gwybodaeth i'r Swyddfa Gynadledda fel y gellir codi anfonebau ar ôl cynhadledd.
- Sicrhau y cyfathrebir yn rhagorol gyda threfnwyr cynadleddau a chynadleddwyr eu hunain.

Rhinweddau Personol / Sgiliau	<u>Hanfodol</u>	<u>Dymunol</u>
Sgiliau Trefnu	<ul style="list-style-type: none"> • Trefnus • Cyflym a chywir • Rhoi sylw gofalus i fanylion • Gallu ymdopi â gofynion sy'n newid • Gallu gweithio mewn awyrgylch prysur 	<ul style="list-style-type: none"> • Gallu rhagweld galw
<u>Medrau TG</u>	<ul style="list-style-type: none"> • Yn gweithio'n fedrus ar gyfrifiadur 	<ul style="list-style-type: none"> • Gwybodaeth o systemau stoc • Gwybodaeth am systemau tiliau
<u>Sgiliau technegol</u>	<ul style="list-style-type: none"> • Gallu canolbwyntio'n rhagorol ar gwsmeriaid • Yn canolbwyntio ar werthiant • Yn gallu ysgogi tîm • Sgiliau gyda gweini bwyd • Sgiliau gwasanaeth bar • Ymwybyddiaeth o Iechyd a Diogelwch • Hylendid Bwyd Sylfaenol 	<ul style="list-style-type: none"> • Gwaith seler • Deiliad Trwydded Personol neu dystysgrif BII • Yn gallu ymdrin â chwsmeriaid sydd dan ddylanwad alcohol • Yn ymwybodol o gyffuriau • Trwydded yrru lawn
<u>Nodweddion personol</u>	<ul style="list-style-type: none"> • Yn hyderus • Gallu gweithio ar eich liwt eich hun • Yn gallu gweithio mewn tîm • Yn gallu arwain sifft • Pendant • Hyblyg • Digynnwrf dan bwysau • Canolbwyntio ar gwsmeriaid • Agwedd bositif • Arloesol • Yn gallu datrys problemau 	<ul style="list-style-type: none"> • <i>Yn ddigon aeddfed i ymddiried yn eich hun</i> • Yn gallu 'newid gêr' dan bwysau • Profiad llwyddiannus o arwain tîm
<u>Cyfathrebu</u>	<ul style="list-style-type: none"> • <i>Yn gallu rhoi cyfarwyddiadau clir ar lafar</i> • Hyderus i gyfathrebu'n glir ar bob lefel 	<ul style="list-style-type: none"> • Yn gallu ysgogi tîm ac ennyn eu brwdfrydedd